

PWYLLGOR:	PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	10 MEDI 2018
TEITL:	DATGANIAD O BOLISI HAPCHWARAE 2018
DIBEN:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1. PWRPAS

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Polisi Hapchwarae a gymeradwywyd eisoes yn ddarostyngedig i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Roedd ymgynghoriad llawn drafft i gael ei ystyried a'i gymeradwyo yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Deddf Hapchwarae 2005. Gweler y polisi yn atodiad 1 yr adroddiad
- 1.2 Fe gofiwch i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar y 11eg o Fedi 2017 y cafwyd cadarnhad nad oedd sylwadau wedi eu derbyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi drafft a gynhaliwyd am 12 wythnos dros yr Haf yn 2017.
- 1.3 Yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 11 o Ragfyr 2017 fe adroddwyd fod gwaith ymchwil ar effaith hapchwarae ar iechyd cyhoeddus a gyhoeddwyd yn Hydref 2017 yn cael ei ystyried fel tystiolaeth berthnasol i'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y Polisi.
- 1.4 Yn dilyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr, fe benderfynwyd y byddai'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn er cymeradwyaeth, ar ei gynnwys a'r polisi cyn iddo gael ei gyfeirio at y Cyngor llawn am gymeradwyaeth terfynol yn unol ag Adran 154 y Ddeddf Hapchwarae 2005. Gweler yr asesiad effaith cydraddoldeb yn atodiad 2.

2. CASGLIAD YR ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

- 2.1 Fe gynhaliwyd asesiad o'r oll o'r dystiolaeth berthnasol sydd ar gael. Fe gasglwyd na ragwelir y byddai'r Datganiad o Bolisi Hapchwarae yn cael effaith sylweddol negyddol na phositif ar unrhyw un o'r grwpiau a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb, nodweddion cydraddoldeb, nac ychwaith ar y ddyletswydd gyffredinol o dan y Ddeddf.
- 2.2 Nodwyd fod y Comisiwn Hapchwarae wedi llunio canllawiau pendant i Awdurdodau Trwyddedu sydd yn golygu fod nodweddion cydraddoldeb dinasyddion yn gorfod cael eu hystyried wrth lunio Polisiâu o dan y Ddeddf Hapchwarae 2005.
- 2.3 Ymhellach i hyn, nodwyd fod yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i nodweddion cydraddoldeb wrth benderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo hapchwarae.

- 2.4 Nodir fod y Ddeddf a'r polisi yn gosod cyfrifoldeb ar weithredwyr trwyddedau hapchwarae wneud asesiad risg lleol er mwyn adnabod unrhyw sefydliadau sensitif cyfagos megis ysgolion, canolfannau oedolion bregus , ac ardaloedd preswyl.
- 2.5 Mae'n bwysig nodi fod diffyg tystiolaeth yn y maes ar hyn o bryd i brofi os yw polisiâu hapchwarae yn cael effaith ar y boblogaeth. Mae'r Comisiwn Hapchwarae wedi cyhoeddi papur briffio yn ddiweddar sydd yn crynhoi'r sefyllfa gyfredol o ran tystiolaeth o niwed sydd yn gysylltiedig ag ymarferion hapchwarae.

3. **ARGYMHELLIAD**

- 3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Datganiad Polisi Hapchwarae a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â Deddf Hapchwarae 2005 gan ei gymeradwyo ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.